Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd am 6.00pm ar 19 Tachwedd 2025 yn Neuadd y Dref.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. Walker (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE,
Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs S. Connolly, Mrs E. M. Chard, S. Feeney,
A. R. James, K. R. Jones, J. Kenney, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine,
W. Price, Mrs V. Roberts, A. R. Rutherford a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref
Mrs R. A. Wheatley – Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Chymorth Gweinyddol

**94. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. M. Evans, Ms R. Roberts a D. Simmons.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod.

**95. DATGAN BUDDIANNAU**

Gofynnodd y Maer a oedd gan aelodau unrhyw fuddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorydd A. R. James fuddiant personol yn eitem agenda rhif 13 (Cyflwyniad: Mr Noah Robinson – Twristiaeth) gan ei fod yn cwrdd â Mr Robinson yn rheolaidd i drafod materion yn ymwneud â'i ward.

**96. DATGANIAD YNGHYLCH SWYDD CYNGHORYDD CYMUNED**

Datganodd Clerc y Dref yn ffurfiol swydd wag Cynghorydd Cymuned yn ward Cefndy, Y Rhyl, a chynghorodd y byddai hysbysiad yn cael ei gyhoeddi yn gwahodd 10 etholwr i ofyn am gynnal etholiad.

Os na cheir y gofyniad hwn, yna gellid llenwi'r swydd wag drwy gyfethol.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r wybodaeth.*

**97. COFNODION**

Cyfarfod y Cyngor - 15 Hydref 2025 - Cofnodion rhifau 76-93

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio - 15 Hydref 2025 - Cofnodion rhifau 15-18

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Cyfarfod arbennig y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 29 Hydref 2025 - Cofnodion rhifau 1-5

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir a'u cadarnhau i'w gweithredu.*

## 98. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu ef a'r Dirprwy Faer yn bresennol ynddynt yn ystod y mis diwethaf (dosbarthwyd gyda'r agenda). Cyfeiriodd y Maer yn benodol at wasanaeth Sul y Cofio'r dref eleni ac roedd yn falch o weld fod cymaint wedi dod ynghyd.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 99. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS HYDREF 2025 (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| 2088 | BT | 87.06 | BT Neuadd y Dref – Rhentu system ffonau |
| 2089 | BT | 378.00 | Neuadd y Dref – gwasanaethau band eang |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 9.00 | Ffôn symudol |
| 2098 | O2 | 21.60 | O2 – rhentu llinellau ffôn a ffonau |
| 1999 | Cyngor Sir Ddinbych | 838.00 | Ardrethi Annomestig Swyddfeydd Dinesig Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – taliad 7 o 10 |
| 2093 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 10,527.87 | Tâl net i bedwar aelod o staff – mis Hydref 2025 + ôl-daliad |
| 2091 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,989.43 | Talu wrth Ennill – mis Medi 2025 |
| 2092 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,178.79 | Cyfraniadau pensiwn – mis Medi 2025 |
| 2034 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,255.83 | Swyddog Apeliadau Budd-daliadau – taliad 6 o 12 yn 2025/26 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2096 | Cyngor Sir Ddinbych | 18,630.00 | Cyfraniad at y system camerâu teledu cylch cyfyng yn 2025/26 |
| 2100 | BT | 87.06 | BT Neuadd y Dref – Rhentu system ffonau |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **38,008.64** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 199.11 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 973.15 |
| Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | Ad-daliad Treth ar Werth Chwarter 2 (mis Gorffennaf – mis Medi 2025) | 3,955.24 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **5,127.50** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 100. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWYO (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2098 | Theatr Cerdd Rhyl a'r Fro | Tri thocyn i berfformiad Rock of Ages 21 Tachwedd 2025 | £60.00 |
| 2105 | Cyngor Sir Ddinbych | Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – tâl gwasanaeth chwarter | £3,873.00 |
| 2106 | BJS Solutions | Meddalwedd mynediad o bell i un cyflogai | £58.88 |
| 2107 | Twristiaeth Gogledd Cymru | Cyfraniad tuag at Ganolfan Croeso'r Rhyl | £16,200.00 |
| 2108 | James Hallam Insurance | Polisi Masnachol Aviva – Adnewyddu ar 1 Tachwedd 2025 | £5,590.25 |
| 2109 | James Hallam Insurance | Polisi Teithio a Damweiniau – Adnewyddu ar 1 Tachwedd 2025 | £483.99 |
| 2110 | Pottles Premier Plants Ltd | Planhigion y Gaeaf 2025/26 | £1,370.52 |
| 2112 | Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres Chwarter 2 – mis Gorffennaf – mis Medi 2025 | £113.40 |
| 2113 | Core Highways (Regions) Ltd | Cau ffyrdd a gwyriadau ar gyfer Sul y Cofio | £1,710.00 |
| 2114 | Cyngor Sir Ddinbych | Un tocyn i ddigwyddiad Elusen y Cadeirydd, 21 Tachwedd 2025 | £12.00 |
| 2115 | Amazon | Peiriant lamineiddio i'r swyddfa | £56.09 |
| 2116 | Cynghorydd R Roberts | Lwfansau costau a threuliau 2025/26 | £208.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2117 | Scottish Power | Cyflenwad trydan (tâl sefydlog) i'r goleuadau Nadolig | £30.49 |
| 2118 | Hamdden Sir Ddinbych Cyf. | Arlwyo ar gyfer Sul y Cofio | £795.00 |
| 2119 | Amazon UK | Peiriant lamineiddio i'r swyddfa | £26.48 |
| 2120 | Canda Copying Ltd | Rhentu llungopïwr | £259.32 |
| 2121 | Canda Copying Ltd | Taliadau'r llungopïwr | £151.12 |
| 2122 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | £179.12 |
| 2123 | Gwasg | Argraffu 200 taflen Trefn y Gwasanaeth maint A5 | £195.00 |
| 2124 | Cyngor Sir Ddinbych | Archwilio a thrwsio goleuadau â nam yn y Gerddi Coffa | £242.82 |
| 2125 | Blachere Illumination UK Ltd | Goleuadau newydd i Neuadd y Dref | £6,757.44 |
| 2126 | Ambiwlans Sant Ioan | Cyfraniad ar gyfer darpariaeth Cymorth Cyntaf Sul y Cofio | £130.00 |
| 2127 | Band Byddin yr Iachawdwriaeth | Cyfraniad i'r band am berfformio yn Sul y Cofio | £50.00 |
| 2128 | Barry Hamilton | Ffotograffau Cyfarfod Blynyddol y Cyngor / sefydlu'r Maer | £145.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£38,697.92** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**101. HER CASGLU TUNNELL O SBWRIEL**

Cyfeiriodd y Maer at ohebiaeth a dderbyniwyd gan blentyn ysgol o Swydd Gaer, Thomas Morgan, yn herio'r cyngor i gasglu tunnel o sbwriel (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), i'r aelodau ei ystyried.

Canmolodd yr aelodau frwdfrydedd Thomas a'i syniadau a chrybwyllwyd y mentrau casglu sbwriel sy'n cael eu cynnal eisoes yn y Rhyl yn y Gerddi Botanegol, Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth Glanhau Miliwn o Filltiroedd a'r fenter Ysgol Di-blastig sy'n canolbwyntio ar leihau'r defnydd ac ailddefnyddio.

Nid oedd yr aelodau am i'r prosiect penodol hwn dynnu oddi wrth y rhai sy'n digwydd eisoes, ac ychwanegwyd nad oes gan Rhyl y seilwaith ar y raddfa angenrheidiol i dderbyn her Thomas yr oedd awdurdodau mwy o faint y bu'n gweithio gyda nhw yn meddu arno.

Awgrymodd y Cynghorydd K. R. Jones y byddai croeso cynnes i Thomas gymryd rhan yn un o fentrau'r Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn ateb Thomas gan esbonio'r uchod ac estyn gwahoddiad iddo ymuno ag un o ddigwyddiadau casglu sbwriel y dref yn y Gwanwyn.*

**102. PENODI CYNRYCHIOLYDD AR GYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ymddiswyddiad y Cynghorydd A. R. James fel un o dri chynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Gymdeithas uchod, oherwydd ymrwymiadau'n gwrthdaro, a gwahoddodd enwebiadau fel aelod amgen.

Atgoffodd Clerc y Dref fod y Cynghorydd Ms V. Roberts yn ddirprwy gynrychiolydd ar hyn o bryd, ac felly gofynnodd i'r Cynghorydd Roberts a fyddai'n hoffi cymryd lle'r Cynghorydd James.

Dywedodd y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones (cynrychiolydd arall), yn anffodus, nad oedd hi'n medru ymrwymo i fod yn gynrychiolydd mwyach, a'i bod yn dymuno ymddiswyddo.

Diolchodd yr aelodau i'r Cynghorydd Chamberlain-Jones am ei hymrwymiad fel cynrychiolwyd am nifer fawr o flynyddoedd.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Roberts yn lle'r Cynghorydd James, y Cynghorydd J. Kenney yn lle'r Cynghorydd Chamberlain-Jones, a'r Cynghorydd Chamberlain-Jones a'r Cynghorydd Mrs S. Connolly fel dirprwy gynrychiolwyr.*

**103. PENODI CYNRYCHIOLYDD AR FWRDD CYMDOGAETH Y RHYL**

Cynghorydd Clerc y Dref am ymddiswyddiad y Cynghorydd A. J. Rutherford o'r Bwrdd, oherwydd cynnydd yn ei ymrwymiadau gwaith, a gwahoddodd enwebiadau am gynrychiolydd arall.

Darparodd y Cynghorydd Rutherford ddiweddariad a'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd, a chynigiodd gael sesiwn trosglwyddo gyda'r cynrychiolydd newydd.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd M. Blackwell.*

[Gadawodd y Cynghorydd Mrs S. Connolly y cyfarfod ar y pwynt hwn

**104. SESIWN HOLI AC ATEB**

Ni chafwyd cwestiwn gan yr aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

**105. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**106. CYFLWYNIAD: MR NOAH ROBINSON – TWRISTIAETH**

Croesawyd Mr Robinson i'r cyfarfod gan y Maer a'i wahodd i roi cyflwyniad i'r aelodau.

Rhannodd Mr Robinson ei farn a'i syniadau am y cynnig twristiaeth bresennol yn y Rhyl i'r aelodau eu hystyried, ac estynnodd wahoddiad iddynt i'w gyfleusterau i'w gweld eu hunain.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn rhoi diweddariad i Mr Robinson ar flaenoriaethau'r Cyngor yn 2026 a thu hwnt, yn dilyn cynnal gweithdy i'r cynghorwyr a swyddogion ym mis Ionawr.*

## 107. Y SWYDDOG CYFATHREBU, GRANTIAU A CHYMORTH GWEINYDDOL, MRS RACHAEL WHEATLEY

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad hi a'r Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Chymorth Gweinyddol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yn cynghori am adolygu gwefan y Cyngor Tref.

Dywedodd Mrs Wheatley fod angen diweddaru dyluniad a chynnwys y wefan a'i bod wedi cysylltu â thri chwmni i gael dyfynbrisiau i gyflawni'r gwaith, a gynhwyswyd yn yr adroddiad, i'r aelodau eu hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *mai'r dyfynbris gan Delwedd oedd y dewis a ffafriwyd gan yr aelodau a chymeradwyo gwariant o hyd at £4,000 o'r cyllidebau Technoleg Gwybodaeth ac wrth gefn.*

## 108. EITEM GAN AELOD: WICKED WALES

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield am gyfraniad ariannol i ffilm sy'n cael ei gwneud gan Wicked Wales, a fyddai'n cystadlu yn y Gystadleuaeth Gŵyl Ffilmiau Ieuenctid Rhyngwladol yn 2026, wedi'i seilio ar lyfr wedi'i ysgrifennu gan drigolyn lleol.

***PENDERFYNWYD*** *gwahodd Wicked Wales i gyfarfod yn y dyfodol i roi cyflwyniad ynghylch y ffilm.*

[Gwnaeth y Cynghorydd Miss C. L. Williams ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem gan ei bod yn aelod o gast y cynhyrchiad, a gadawodd y cyfarfod heb gymryd rhan yn y trafodaethau na'r pleidleisio ar yr eitem.]

## 109. POLISI RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i gymeradwyo'r polisi blynyddol a chynghorodd na dderbyniwyd unrhyw enwebiadau hyd yma.

Ychwanegodd Clerc y Dref y dylai'r aelodau ei chynghori am unrhyw enwebiadau cyn cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r polisi.*

**110. CAIS GAN DARREN MILLAR AS**

Hysbysodd Clerc y Dref am ohebiaeth a dderbyniwyd gan Mr Darren Millar AS (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried derbyn rhodd gan dref Korystyshiv yn Wcrain, gyda'r nod o ystyried y posibilrwydd o efeillio gyda'r dref.

***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais ar hyn o bryd, gan fod y Cyngor Tref yn y broses o flaenoriaethu ei ymdrechion a'r cronfeydd cysylltiedig i ddiwallu anghenion y Rhyl a'i drigolion yn y modd gorau, gan ddiolch i Mr Millar am ystyried y Cyngor Tref a mynegi ei ddymuniad am ddiwedd i'r gwrthdaro i bobl Korystyshiv ac Wcrain.*

**111. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: ……..……………………..

Dyddiad: ……………….………..